**Cylch Gorchwyl**
**y Panel Craffu Annibynnol ar Ddalfeydd**

DRAFT

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r cylch gorchwyl ar gyfer y Panel Craffu ar Gadw yn y Ddalfa, ei aelodaeth a rolau a chyfrifoldebau'r aelodau.

## 2. Diben y Panel Craffu Annibynnol ar Ddalfeydd

Yn 2022, nododd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu bod craffu annibynnol cyfyngedig o anghymesuredd a dalfeydd mewn heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Yn dilyn sawl digwyddiad proffil uchel yn y blynyddoedd diwethaf, mae hyder y cyhoedd o ran y ffordd y mae'r heddlu'n trin y cyhoedd wedi gostwng.

Mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi awgrymu y byddai Panel Craffu ar Gadw yn y Ddalfa'n gwella tryloywder, yn cynyddu hyder y cyhoedd, ac yn nodi arferion da a drwg.

Diben cyffredinol y Panel Craffu Annibynnol ar Ddalfeydd yw sicrhau bod gweithredu gweithdrefnau'r heddlu ar gyfer cadw yn y ddalfa yn gymesur, cyfreithiol a gofynnol yn Heddlu Dyfed-Powys.

## 3. Strwythur y Panel

Bydd Aelodaeth y panel Craffu'n cynnwys:-

- Cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd gwirfoddol
- Aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd
- Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol
- Gweithiwr Gofal Iechyd
- Rhingyll Dalfa (yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau)

Gall Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wahodd swyddogion neu staff o'r Gwasanaeth Heddlu neu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i roi cyngor proffesiynol i'r Panel.

**Trefniadau Gweithredu**

- Cynhelir y cyfarfod wyneb yn wyneb.

- Bydd staff SCHTh yn dewis hyd at 30 cofnod dalfa ar hap i graffu arnynt.
- Bydd gwybodaeth achos yn cael ei pharatoi gan Heddlu Dyfed-Powys (y Rhingyll Andrew Rogers) a'i rhannu yn ystod y cyfarfod. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chasglu ar ddiwedd y cyfarfod.
- Hysbysir pob aelod os bydd cyfarfod yn cael ei ganslo.
- Os oes angen penderfyniadau y tu allan i'r cyfarfodydd, bydd y rhain yn cael eu cyfeirio at y rheolwr cynllun, a fydd yn ystyried ac yn trefnu eu rhannu ymysg yr aelodau yn ôl yr angen.
- Llunnir adroddiad o'r canfyddiadau gan Weithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth SCHTh ac fe'i rhennir â'r Pennaeth Ansawdd er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.
- Rhennir yr adroddiad â'r Pennaeth Dalfeydd er ei ystyriaeth ac ymatebir i unrhyw argymhellion a wneir.
- Rhennir yr adroddiad yn y Bwrdd Craffu ar Gadw yn y Ddalfa Strategol.

**5. Cylch Gorchwyl**

Sefydlwyd y panel i graffu'n annibynnol ar ddalfeydd er mwyn sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu gweithdrefnau'r heddlu ar gyfer cadw yn y ddalfa'n gymesur, cyfreithlon a phriodol.

Bydd thema ar gyfer pob cyfarfod a dewisir pob pwnc yn y cyfarfod blaenorol.

Bydd y craffu'n cynnwys archwilio meysydd megis:

- Cadw ieuenctid (Urddas a Pharch, anghymesuredd, amseroldeb)
- Defnyddio noeth-chwiliad (Cydymffurfiaeth â pholisi, urddas a Pharch, anghymesuredd, amseroldeb).
- Monitro lefel Risg cadw (Defnydd o Siwtiau Gwrth-rwyg, urddas a Pharch, anghymesuredd, amseroldeb).
- Defnydd o rym (Cydymffurfiaeth â pholisi, urddas a Pharch, anghymesuredd, amseroldeb).
- Pynciau eraill y mae'r panel yn gofyn amdanynt.

**4. Amlder Cyfarfodydd**

Bydd y Panel yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn, unwaith bob yn ail fis. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol os yw'r Heddlu a'r Comisiynydd yn cytuno lle mae busnes brys i'w drafod.

**5. Gofynion Cyfranogi**

- Hyfforddiant: Er mwyn cymryd rhan, bydd angen bod aelodau Panel wedi cwblhau'r hyfforddiant Cyflwyniad i'r Ddalfa a ddarperir gan Heddlu Dyfed-Powys.
- Fetio: Does dim gofynion fetio ychwanegol ar gyfer ymwelwyr annibynnol â dalfeydd y tu hwnt i'r lefelau fetio sy'n bodoli eisoes (Lefel 2 Unigolion Nad Ydynt yn Gweithio i'r Heddlu).
- Gofynnir i'r holl aelodau arwyddo cytundeb cyfrinachedd a fydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.

## 6. RHEOLI FERSIWN A DYDDIAD ADOLYGU

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 2024-1 |
| Awdur: | Donna Cronin, Pennaeth Sicrwydd |
| Dyddiad cymeradwyo: | |
| Bwrdd Cymeradwyo: | |
| Dyddiad adolygu: | |
| Adolygwyd gan: | |
| Cymeradwywyd gan: | |
| Dyddiad cymeradwyo: | |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf: | |

DRAFFT